YSTAFELL NEWYDDION Y BOBL

# IFANC, DU A CHYMREIG

YSGRIFENNWYD GAN SHAKIRA MORKA



# Mae canfyddiad yn parhau fod y Gymraeg yn iaith ‘wyn’ yn ei hanfod, ac yn ei thro mai gwlad hanfodol wyn yw Cymru

Er gwaethaf cwblhau 15 mlynedd o addysg cyfrwng Cymraeg, er gwaethaf cael fy ngeni a’m magu yn Abertawe, ac er gwaethaf siarad Cymraeg yn rhugl, byddaf fel arfer yn wynebu ymateb o sioc pan fyddaf yn siarad yr iaith. Ac er gwaethaf pob ymdrech i ddiystyru’r profiadau hyn, rwyf wedi dod yn boenus o ymwybodol o’r modd y gwelir fi, neu’n fwy cywir, fel nad wyf yn cael fy ngweld, fel rhywun Du sy’n siarad Cymraeg.

Oherwydd i mi fynychu ysgol ble roedd 98% o’r disgyblion yn wyn, ac wynebu fy nhormentio’n ddyddiol, o aflonyddu bychan fel cyffwrdd fy ngwallt, i hiliaeth gignoeth ac agored, fel galw enwau hiliol, ni theimlais erioed i mi gael fy nerbyn yn llawn ymysg y gymuned Gymraeg. Un o’m hatgofion cynharaf oedd cael cymharu lliw fy nghroen â phŵ a mwd pan oeddwn yn bum mlwydd oed. Prin y gwyddwn mai dim ond y dechrau fyddai hyn, gan roi ffurf ar y syniad na fydda i byth yn ddigon o ‘Gymraes’ oherwydd lliw fy nghroen yn unig. Parodd hyn i mi deimlo dryswch rhyfedd wrth i mi dyfu fel rhywun o dras gymysg o Gymru a Nigeria. Mae’r ddeuoliaeth o edrych yn ‘fwy Du’ ond ar yr un pryd feddu ar ddealltwriaeth well o’m treftadaeth Gymreig dros fy nhreftadaeth Nigeraidd wedi fy ngadael yn teimlo’n ynysig ambell waith.

Yn fy mhrofiad i mae’r diffyg amrywiaeth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ynghyd â chwricwlwm sy’n blaenoriaethu anghenion disgyblion gwyn, yn niweidio’r llond llaw o fyfyrwyr Du. Dim ond atgyfnerthu hyn wnaeth fy sgwrs gyda’r Athro Charlotte Williams, cadeirydd Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Ngrŵp Gweithio’r Cwricwlwm Newydd. Dywedodd hi fod methu â chynrychioli hanes pobl BAME yn arwain yn uniongyrchol at leihad mewn cyrhaeddiad academaidd yn y grwpiau hyn. Mae’r lleihad mewn cyrhaeddiad academaidd hwn, oherwydd hunan-barch is a llai o ddiddordeb, yn cynnal mathau eraill o orthrwm, fel dosbarthed, sy’n effeithio ar aelodau mwyaf bregus cymdeithas. Mae’i gwaith hi wrth newid y cwricwlwm, sy’n dechrau yn 2020, wedi golygu fod plant ledled Cymru’n cael mynediad i hanes cyfoethog ein gwlad yn ei holl gyfanrwydd. Mae methu â chynnwys hanes BAME hefyd yn effeithio ar gyrhaeddiad plant gwyn, fel y dywedodd hi: “Bydd y plentyn gwyn mwyafrifol yn cael ei atal rhag cael ei gwricwlwm, ei feddwl, wedi’i gyfoethogi gan amrywiaeth.”

## “gellir gwarchod diwylliant traddodiadol Cymru heb warafun i’w aelodau o leiafrifoedd ethnig le diogel ynddo”

Cynrychiolir y lleihad hwn mewn cyrhaeddiad a chyfle orau efallai gan brofiad fy chwaer 16 oed. Wrth dyfu, roedd hi’n frwd dros hanes, a phenderfynodd ei gymryd fel un o’i dewisiadau TGAU, ond yn y pen draw, gollyngodd y pwnc oherwydd bod hanes Du yn cael ei fychanu’n anaddas yn ei haddysg. Ac eto, dim ond enghraifft fechan yw hyn o’r hiliaeth gyson roedd hi’n ei wynebu. Mae’i gwallt wedi’i niweidio bellach ar ôl ei sythu’n ddyddiol oherwydd bod disgyblion yn gwneud hwyl am ei wead. Mae hi wedi dioddef o effeithiau iechyd meddwl sylweddol ar ôl dioddef blynyddoedd o gam-drin ar sail hil. Arweiniodd hyn yn y diwedd at ei gorfodi i adael ei hysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i fynd i goleg cyfrwng Saesneg. Maentumiodd fod yr ateb yn aml-haenog, ond mae rhan allweddol ohono’n sefyll gyda newid y cwricwlwm ac addysgu myfyrwyr. Tynnodd sylw hefyd at y llinell denau rhwng

gwladgarwch a hiliaeth, gan ddweud: “Maen nhw’n falch iawn o fod yn Gymry, ond wedyn gall y balchder hwnnw droi’n gasineb yn erbyn unrhyw un sydd ddim yn Gymro.”

Efallai fod y ‘gwladgarwch’ hwn, sydd weithiau’n gyfeiliornus, yn deillio o safle Cymru’i hun fel cenedl a arferai gael ei gorthrymu. Efallai mai’r enghraifft fwyaf nodedig sy’n treiddio drwy ein hanes yw Tryweryn, y pentref Cymreig a foddwyd yn fwriadol a drwg-enwog i ddarparu dŵr i Lerpwl yn 1965, er gwaethaf gwrthsafiad pobl Cymru a’i llywodraeth.

Ac eto mae yno ragrith rhyfedd: cafodd y Cymry eu hunain eu gormesu, ac eto mae sefydliadau Cymraeg yn parhau i atgyfnerthu’r agwedd honno tuag at grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy’n wynebu, gellid dadlau, wahaniaethu mwy dwys, ar sail hil. Er gwaetha’r ffaith fod siaradwyr Cymraeg du eu croen wedi’u cofnodi mor bell yn ôl a’r ddeunawfed ganrif, ac efallai cyn hynny, mae canfyddiad yn parhau fod y Gymraeg yn iaith ‘wyn’ yn ei hanfod, ac yn ei thro mai gwlad hanfodol wyn yw Cymru. Mae’r broblem hon yn systemig ac wedi’i gwreiddio’n ddwfn yn y system addysg, ein cyfryngau a digwyddiadau diwylliannol. Tystir i hyn gan y diffyg modelau rôl Cymreig Du. Canfu’r Cyngor Gweithlu Addysg mai dim ond 7 o blith cyfanswm o 3,443 pennaeth ysgol gweithredol sy’n dod o leiafrifoedd ethnig, a does mo’r un o’r rheiny’n ddu.

Ond ceir rhywfaint o dystiolaeth fod newid yn digwydd. Ar gorn mudiad Black Lives Matter yn 2021, cyhoeddodd S4C, y sianel deledu Gymraeg genedlaethol, ymrwymiad i gynyddu’r nifer o gefndiroedd BAME a welid ar sgrin. Yn ogystal mae’r niferoedd athrawon o leiafrifoedd ethnig yn cynyddu’n flynyddol.

## “chwricwlwm sy’n blaenoriaethu anghenion disgyblion gwyn, yn niweidio’r llond llaw o fyfyrwyr Du”

Felly beth yw’r oblygiadau ar gyfer y genhedlaeth bresennol a’r rhai i ddod? Comisiynodd Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru’r Undeb Gwrth Hiliaeth mewn Celfyddydau i edrych ar eu hymdrechion i fod yn gynhwysol. Nid yn annisgwyl, eu canfyddiad oedd bod y ddau sefydliad heb wneud digon i ymgysylltu â phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Fe wnaethon nhw ddyfynnu’r polisïau Cymraeg presennol ym mhrosesau gwneud ceisiadau’r sefydliadau fel un rhan o’r broblem. Wrth gwrs, mae’n anodd dadlau fod yr iaith ei hun yn hiliol, ond mae amgylchedd presennol gofodau Cymraeg yn sicr yn cyfrannu at ddiffyg o ran siaradwyr Cymraeg o’r cefndiroedd hyn. Dywedodd Nia Adere, myfyrwraig 20 oed a fynychodd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Abertawe, bod ei chyn-ysgolion hi’n dod yn fwy amrywiol bob blwyddyn. Siaradodd am ei chwaer iau, sy’n 10 oed, y mae ganddi fwy o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig yn eu blwyddyn o’i gymharu â’i chyfnod hi yn yr ysgol, sy’n cyfrannu at amgylchedd mwy croesawgar. Adlewyrchir hyn gan y duedd ehangach ledled ysgolion yng Nghymru, ble mae 12% o ddisgyblion dros 5 oed yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Er gwaethaf hyn, mae’i chwaer yn parhau i wynebu hiliaeth, gan ddangos nad yw cynyddu amrywiaeth ynddo’i hun, heb hefyd gydnabod hanes Du, ddim yn ddigon.

Daw hyn â thrafodaeth yn ei sgil hefyd am ddyfodol diwylliant y Gymraeg, wrth i’n byd fynd yn fwy amlddiwylliannol ac amlieithog yn sydyn, ac y bydd hyd yn oed yn fwy felly yn 2052. Gellir gwarchod diwylliant traddodiadol Cymru heb warafun i’w aelodau o leiafrifoedd ethnig le diogel ynddo. Er enghraifft, Tiger Bay yng Nghaerdydd, sy’n gartref i gymunedau Somali oedd un o’r mannau cyntaf ble ymgartrefodd pobl Ddu yn y DU, ac felly mae methu â chynnwys y straeon hyn yn golygu fod hanes Cymru o’r herwydd yn anghyflawn.

Holais Charlotte am gynnwys y gair ‘Cynefin’ yn nheitl Grŵp Gweithio’r Cwricwlwm Newydd, sydd fel pe bai’n gwrth-ddweud y naratif fod y Gymraeg yn iaith eithriol. Dywedodd hi fod ‘cynefin’ yn syniad y gellir ‘ei herio yn ogystal â’i goleddu’. Hynny yw, nad yw’n berchen yn unig i bobl sy’n Gymry ethnig, ond sydd yn hytrach yn cwmpasu hanes cyflawn Cymru, sy’n

cynnwys dinasyddion Du. Mae hyn yn tywynnu goleuni ar ddyfodol â chwricwlwm sy'n cynrychioli Cymru well, fwy cynhwysol.

# GALWAD

UNBOXED
CREATIVITY IN THE UK

Cymru Greadigol
Creative Wales

Cynhyrchir GALWAD can Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.